CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
7 Mehefin 2017, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, R Edwards, A Evans, A Mummery (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), R Williams (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Dim	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng R Edwards a Cyng A Evans (Cais cynllunio 41C143 Ty Capel Horeb, Penmynydd)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 17 Mai 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir - Cyng N Jones yn cynnig a Cyng E Williams yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir am diweddariad
4.2	**Gor-yrru Penmynydd** - Nid yw Gan Bwyll wedi derbyn yr wybodaeth am gyflymder traffic gan y Cyngor Sir. Byddant yn atgoffa y Cyngor Sir
4.3	**Maes chwarae** - Bydd Cyng N Jones yn trefnu cael cadwyn a chlo i osod ar y giat.
4.4	**Hysbysffwrdd Star** - Mae'r hysbysffwrdd yn Star wedi cael ei osod a'r hysbysffwrdd yn Mhenmynydd wedi cael ei drin
4.5	**Mast Penmynydd** - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.6	**Seddau Gwag** - Mae'r Clerc wedi derbyn tri cais - Mr Rhys Davies, Mr Selwyn Hughes a Cyng A Mummery. Cytunwyd i cyfethol y tri
4.7	**Canolfan Penmynydd** - Bydd y cyfarfod cyhoeddus yn mynd ymlaen ar 21 o Fehefin i ystyried creu pwyllgor i rhedeg y Ganolfan. Cytunwyd bydd y Cyngor Cymuned yn talu y rhent am y Ganolfan (am cyfnod y les). Cynigodd y Cadeirydd gofyn i Mr Owain Evans cael golwg ar cyfle yr adeilad.
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Priffyrdd
5.1	Rheolaeth Traffig Llangefni - Mae'r Cyngor Sir wedi gofyn wrth Bartneriaeth Gan Bwyll orfodi ar y B5420 Penmynydd, y B5109 Cildwrn ac y B4422 Rhostrehwfa oherwydd y gwaith ar Lon Glanhwfa
	Busnes y Cyngor
5.2	Pwyllgor Safonau (Cynrychiolwyr) Mae angen 2 i gynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned - dim diddordeb
	Cynllunio
5.3	41C144 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Dragon Wen, Penmynydd - dim sylwadau.
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Unllais Cymru - Cyfarfod 28.06. 17 (gwybodaethyn unig)
6.2	Horizon - Ymgynghoriad 17 (gwybodaeth yn unig)
	Llofnod **Cadeirydd** **05.07.17**

7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
	Cytunwyd i dalu:
7.2	SSE (Southern Electrical) £40.87
7.3	Rhent y Maes Chwarae £93.80
8	**MATERION ERAILL**
8.1	41C143 Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ol ar dir ger Ty Capel Horeb, Penmynydd. Trafodywd y mater ar diwedd y cyfarfod ar ôl I Cyng R Edwards a Cyng A Evans gadael y cyfarfod - sylwadau: pryder ar effaith y ty ar draeniau dwr a mae'r mynedfa yn peryglus i traffig. Hefyd drost y blynyddoedd mae swyddogion y Cyngor Sir wedi bod i ty drost y lon ac wedi dweud bod preswylwyr ar yr un lon ddim yn cael caniatad am adeilad arall. Cynigodd Cyng R Williams dim sylwad ar y mater.
8.2	Mynwent yr Eglwys. Trafodwyd cwyn am tyfiant o gwmpas y beddau a gofynwyd i'r Clerc dod a'r mater at sylw yr Esgobaeth
9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **05.07.17**